

Adroddiad Atebolrwydd Danny Lipatovs (IL Addysg):

Cyflogadwyedd

Roedd fy ymgyrch wedi ei seilio'n bennaf o gwmpas cyflogadwyedd, ond roedd hefyd yn sôn am frwydro'n ôl yn erbyn toriadau yn y Brifysgol, a rheolau a chyfathrebu cliriach o amgylch DA (Deallusrwydd Artiffisial) o fewn addysg ym Mangor. O ran cyflogadwyedd, y prif ffyrdd roeddwn i'n meddwl symud fy ymgyrch ymlaen oedd trwy interniaethau a digwyddiadau gyrfaedd wedi eu harwain gan fyfyrwyr. Hyd hyn, ar ochr yr interniaethau, rydw i wedi bod mewn cyswllt efo'r tîm tu ôl y cynllun i gael gwared â gwybodaeth sy'n hen neu'n gamarweiniol ar wefan y Brifysgol, tra hefyd yn annog cyflwyno ffordd haws i staff ar hyd y brifysgol i wneud cais i sefydlu interniaeth. Yn y dyfodol agos byddaf i hefyd yn edrych trwy ddata'r blynnyddoedd blaenorol ar gyfer interniaethau er mwyn adnabod unrhyw ysgolion academaidd neu adrannau mewnol sydd heb gael intern, i'w hannog nhw i wneud cais ar gyfer un (neu fwy) fel bod myfyrwyr ar hyd y brifysgol, pa bynnag gefndir academaidd sydd ganddynt, yn cael cyfle sy'n teimlo'n iawn iddyn nhw!

Trwy fy nhymor cyfan mi fydda i hefyd yn gweithio ar fy ffocws arall o fewn yr ochr cyflogadwyedd, sef digwyddiadau gyrfaedd wedi eu harwain gan fyfyrwyr. Mae angen ychydig o gyd-destun i esbonio hyn. Tra roeddwn i'n fyfyrwr, ro'n i yn helpu i greu a rhedeg grŵp oedd yn ymwneud â chyflogadwyedd yn fy ysgol. Roedd y grŵp hwn yn rhedeg ffeiriau gyrfaedd, digwyddiadau rhwydweithio, a sesiynau a gweithdai adeiladu-sgiliau eraill. Cafodd y rhain ymateb gwych gan staff a myfyrwyr hefyd, ac mi wnaethon nhw wir helpu'r myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u rhwydweithiau mewn meysydd perthnasol. Felly, yn ystod fy ymgyrch, mi wnes i sôn am fod eisiau lledaenu hyn i fwy o ysgolion academaidd. Nawr yn ôl at y pwynt: mi fyddai hi'n groes i'r graen i geisio gwthio'r model gweithion ni arno yn fy ysgol i ar ysgolion eraill o'r top-i-lawr, gan na fydd gan hyn siawns o lwyddo. Felly, rydw i wedi bod yn cysylltu efo staff ar hyd ysgolion a gwasanaethau proffesiynol gwahanol er mwyn creu dealltwriaeth ddyfnach tu ôl i sut a pham mae digwyddiadau wedi eu harwain gan fyfyrwyr yn digwydd yn annibynnol, ac o hyn fe wna i greu canllaw "yr oll sydd angen gwybod" cynhwysfawr ar gyfer staff a myfyrwyr ar sut i gyflwyno digwyddiadau wedi eu harwain gan fyfyrwyr i mewn i'w hysgolion mewn modd organig ac o'r gwaelod-fyny. Mae hyn i sicrhau fod y mentrau yn parhau yn bell i mewn i'r dyfodol ac yn cael effaith cadarnhaol gwir a mesuradwy ar y myfyrwyr yn yr ysgolion priodol.

DA a Thoriadau Staff

Yn lwcus, does dim toriadau staff pellach wedi bod ar hyd y brifysgol ers cwpl o flynyddoedd yn ôl, a gobeithiaf y bydd hyn yn parhau, ond rhag ofn y ceith unrhyw beth ei gyhoeddi, fe wnaif i sicrhau fod hyn yn cael ei gyfathrebu i'r corff myfyrwyr mewn modd prydlon. Ar yr ochr DA, rydw i'n ymwneud dipyn efo beth sy'n cael ei alw'n banel "camymddwyn academiaidd", sydd 'sw'n i'n dweud tua 90% o'r amser yn ymwneud â chamddefnydd o DA Cynhyrchiol mewn sefyllfa academiaidd, sy'n dangos maint y trwbl mae hyn yn achosi. Peidiwch poeni, mae llawer o waith yn cael ei wneud yn y cefndir yn y brifysgol er mwyn gweithio allan sut i sefydlu rheolau clir a theg ar ei ddefnyddio, a sut i aros yn gyfoes efo maes technolegol sy'n newid yn gyflym iawn, tra hefyd yn cyd-fynd efo nodau cynaliadwyedd a moesegol y brifysgol. Heblaw am gynrychioli diddordebau myfyrwyr ar lefel uchaf proses gwneud-penderfyniadau'r brifysgol, dydw i ddim yn gweithio ar unrhyw brosiect sy'n ymwneud â DA Cynhyrchiol ar y funud. I fod yn glir, dydi hyn ddim oherwydd nad oes gen i na'r myfyrwyr ots, ond achos fod yna bethau eraill sy'n uwch ar fy rhestr i o flaenoriaethau ar hyn o bryd.

Gwneud Newid

Mannau Astudio YÔ-R

Llynedd fe wnaeth Undeb y Myfyrwyr lansio ffordd newydd i fyfyrwyr ar hyd y brifysgol i fod yn rhan o ddemocratiaeth a newid cadarnhaol. Os nad ydych chi'n ymwybodol, mi all myfyrwyr gyflwyno syniadau ac awgrymiadau i ni yn yr Undeb, ac yna byddwn ni'n annog gweddill y corff myfyrwyr i gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r cynnig. Os mae yna ddigon o dystiolaeth ategol ac mae'r cynnig yn cael ei gymeradwyo gennym ni fel Tîm Swyddogion, yna rydyn ni'n gwneud hynny yn flaenoriaeth i'r Undeb. Yn fy nhymor i, fe ddaeth y cynnig cyntaf trwy'r system hwn yn dilyn ail-bwrpasu ardal astudio YÔ-R (Ymchwil Ôl-Raddedig) i mewn i lolfa. Fe wnaeth dipyn o fyfyrwyr roi adborth ar hyn felly mi wnaethon ni fel Tîm Swyddogion ei gymeradwyo a'i gymryd at ein Dirprwy Is-Ganghellor dros Addysg a Phrofiad Myfyrwyr. Ar ôl codi'r mater, cyn hir fe wnaeth y tîm Isadeiledd ac Ardaloedd Myfyrwyr (Gwasanaethau Campws) gysylltu efo ni, ac mi wnaethon ni weithio efo nhw i ffeindio ardaloedd astudio eraill sy'n hygyrch, yn dawel, a lle mae mynediad ar gael tu allan i'r oriau gwaith arferol. Oherwydd y pwysau roedden ni wedi gallu rhoi fel canlyniad i'r cynnig, a trwy weithio efo'r bobl gywir ar hyd adrannau gwahanol, fe gafodd 2 man gwahanol eu ffeindio'n andros o gyflym: un i bob myfyriwr o'r nosweithiau tan y boreau cynnar (18:30pm-6:30am) yn y

man CoLab Pontio, a'r ail yn benodol ar gyfer myfyrwyr YÔ-R sydd ar gael 24/7, efo manylion y man hwn i gael eu cyhoeddi i'r myfyrwyr hyn yn fuan. Unwaith i'r arwyddion gael eu cwblhau a'r cyfathrebiadau yn barod, fe geith y cyhoeddiadau hyn eu creu trwy E-bost, Instagram a'r Bwletin Myfyrwyr, gyda diweddariad ffurfiol a'r ymgyrch yn cael ei gau ar ein gwefan, ar y linc yma:

[Dywedwch Eich Dweud! @ Undeb Bangor Students' Union](#)

Arall

Rydyn ni fel Swyddogion hefyd wedi bod yn brysur iawn efo gweithgareddau cyffredinol Undeb y Myfyrwyr sy'n ymwneud efo paratoi at ddechrau'r tymor, er enghraifft Serendippedd, ein digwyddiad blynyddol mwyaf ar gyfer glasfyrwyr a myfyrwyr sy'n dychwelyd. Ar ben hyn, treulion ni lawer o amser dros yr haf yn cynllunio'r flwyddyn sy'n dod, yn cyfarfod y staff a'r timau perthnasol ar hyd y brifysgol y byddwn ni angen adnabod a gweithio efo yn ein tymor ni, a hefyd yn helpu o ddydd-i-ddydd efo pethau fel stolion, diwrnodau agored a chreu cynnwys ar gyfer ein cyfathrebiadau a'n cyfryngau!

Mae yna hefyd bethau rydyn ni wedi gweithio arnynt neu wedi eu cyflawni na allwn ni siarad amdanynt eto gan nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi, felly cadwch lygad allan ac fe glywch chi amdanyn nhw faes o law.

Mae'n siŵr fy mod i wedi anghofio o leiaf ychydig o'r gwaith 'dw i wedi ei wneud dros y tua 3 mis dwythaf felly os ydych chi byth yn ansicr o beth ydw i'n gweithio arno, neu os mae gennych chi fater yr hoffech chi godi, e-bostiwch fi ar: danny.lipatovs@undebbangor.com